Erbyn hyn y mae Mrs Llywela Williams yn ol gennym ac yn teimlo'n llawer iawn gwell ar ol derbyn triniaeth. Diolchwn i Mrs Mary E. Thomas am ei chyfraniad yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Yn ystod y mis daeth Mr Iwan E. Jones yn ol atom am rhyw awr a chawsom y cyfle i ddiolch iddo am ei lafur yn ystod y blynyddoedd y bu'n athro'n ein plith. Soniwyd am ei barodrwydd i gynorthwyo bob amser gyda phob gweithgaredd ac am roddi oriau o wasanaeth wedi amser ysgol. Bu Mr Jones yn athro da yma ymhob ystyr. Ar ran y staff a'r plant cyflwynodd Mrs E. A. Evans hiniadur hardd iddo a diolchodd yn ddiffuant iddo am ei gyfraniad i'r ysgol a'r ardal. Yna ar ran Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol cyflwynwyd iddo ddarn o grochenwaith gan Mrs S. Thacker a mynegodd hi a Mr D. R. Morgan eu diolch didwyll iddo. Ar ran Adran yr Urdd cyflwynwyd rhodd iddo gan Mrs Delyth Ralphs. Soniodd hithau am wasanaeth Mr Jones ac am ei gyfraniad i'r Urdd. Er mai ar ol oriau ysgol y cyferfydd yr adran gwyddem yn siwr y byddai Mr Jones yno bob amser. Mewn geiriau cymwys diolchodd Mr Iwan Jones i bawb am bob caredigrwydd a dymunodd bob llwyddiant i'r ysgol i'r dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Adran yr Urdd pryd yr etholwyd y swyddogion am y tymor. Ein cadeirydd yw Mr R. T. Evans, yr ysgrifennydd Mrs Delyth Ralphs a'r trysorydd Mrs Eirwen Booth. Diolchwyd i Mrs Gwenan Davies am y gwaith mawr a wnaeth fel trysorydd yr adran am flynyddoedd. Mae'r clwb yn cyfarfod wedi amser ysgol ar Ddydd Llun a chawn lawer o hwyl yno. Sylweddolwn mor bwysig yw hi i'r plant fynegi eu hunain mewn gwahanol ffyrdd a thrwy gyfrwng can, cwisiau, dawnsio gwerin ac yn y blaen llwyddwyd i gael cyfarfodydd diddorol yn ddiweddar.

Ymwelodd y plant a'r athrawon un noson a Swyddfa'r Heddlu'n Aberystwyth a chawsom amser hyfryd iawn yno. Soniodd yr Arolygydd Terry Adams am waith plismon a thywysodd ni o amgylch yr orsaf. Aeth yr amser heibio'n llawer rhy gyflym. Mwynhawyd yr ymweliad yn fawr.